

<b>PWYLLGOR:</b>	<b>IS -BWYLLGOR TRWYDDEDU CANOLOG</b>
<b>DYDDIAD:</b>	<b>20 MEDI 2019</b>
<b>TEITL:</b>	<b>CAIS AM DRWYDDED EIDDO - YR HWB, BALA</b>
<b>PWRPAS:</b>	<b>ER PENDERFYNIAD</b>
<b>AWDUR:</b>	<b>PENNAETH AMGYLCHEDD</b>

## 1. CAIS A DDERBYNIWYD

- 1.1 Atodir cais am drwydded eiddo ar gyfer Yr Hwb, Ysgubor Isaf, Lon Cariadon, Y Bala LL23 7NW gan Zoe Rachel Hansford Smith. Mae'r ymgeisydd yn ceisio trwydded eiddo ar gyfer adeilad caffi sydd yn cynnwys gardd/ardal eistedd tu allan , canolfan gweithgareddau awyr Agored ; ardal chwarae 'soft play' a chanolfan ddigwyddiadau.
- 1.2 Gwneir y cais mewn perthynas â gwerthu alcohol ar yr eiddo; dangos ffilmiau, a dramâu ; cerddoriaeth fyw ac wedi ei recordio, perfformiadau dawns a gwerthiant alcohol .
- 1.3 Mae swyddogion yr Awdurdod Trwyddedu yn fodlon fod tystiolaeth ddigonol fod y cais wedi ei gyflwyno yn unol â gofynion y Ddeddf Drwyddedu 2003 a'r rheoliadau perthnasol ac felly yn ddilys.
- 1.4 Fe fu i'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd Cyngor Gwynedd a'r Heddlu wneud sylwadau ar y cais; ac fe gafwyd cytundeb gan yr ymgeisydd parthed yr argymhellion an wnaethpwyd.

Gweler y tabl amgaeedig am fanylion yr oriau arfaethedig.

<b>GWEITHGAREDDAU TRWYDDEDIG</b>	<b>TRWYDDED ARFAETHEDIG</b>
<b>Oriau Agor / Opening Hours:</b>	Dydd Llun/Mon 08:00-23:30 Dydd Mawrth/Tue 08:00-23:30 Dydd Mercher/Wed 08:00-23:30 Dydd Iau/Thu 08:00-23:30 Dydd Gwener/Fri 08:00-02:00 Dydd Sadwrn/Sat 08:00-02:00 Dydd Sul/Sun 08:00-23:30
<b>Dramau/Plays</b> Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
<b>Ffilmiau/Films</b> Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
<b>Cerddoriaeth Fyw</b> Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-23:00

	Dydd Iau/Thu 09:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-01:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-01:00 Dydd Sul/Sun 09:00-23:00
<b>Cerddoriaeth wedi'i Recordio/Recorded Music</b> Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-23:00 Dydd Iau/Thu 09:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-01:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-01:00 Dydd Sul/Sun 09:00-23:00
<b>Perfformiadau Dawns/ Performances of Dance</b> – Dan do ac awyr agored/Indoors and outdoors	Dydd Llun/Mon 09:00-22:00 Dydd Mawrth/Tue 09:00-22:00 Dydd Mercher/Wed 09:00-22:00 Dydd Iau/Thu 09:00-22:00 Dydd Gwener/Fri 09:00-23:00 Dydd Sadwrn/Sat 09:00-23:00 Dydd Sul/Sun 09:00-22:00
<b>Cyflenwi Alcohol/Supply of Alcohol</b> Ar yr Eiddo/On the Premises	Dydd Llun/Mon 11:00-23:00 Dydd Mawrth/Tue 11:00-23:00 Dydd Mercher/Wed 11:00-23:00 Dydd Iau/Thu 11:00-23:00 Dydd Gwener/Fri 11:00-01:30 Dydd Sadwrn/Sat 11:00-01:30 Dydd Sul/Sun 11:00-23:00

## 2. Mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd i hyrwyddo'r amcanion trwyddedu

Mae'r mesurau a argymhellir gan yr ymgeisydd yn cynnwys y canlynol –

- Hyfforddiant i staff er sicrhau cydymffurfriad gyda'r amcanion trwyddedu
- Sicrhau atal gwerthiant a defnydd cyffuriau anghyfreithlon
- Bwriedir cynnal system camerâu teledu cylch cyfyng
- Cynnal goleuadau tu allan er mwyn sicrhau diogelwch cwsmeriaid hwyr yn y nos.

Gweler manylion llawn y mesurau a argymhellir yn adran **M** o'r cais

## 3. YMGYNGHORIAD

Fe ymgynghorwyd ar y cais, ac fe dderbyniwyd ymatebion fel a ganlyn -

<b>YMATEBION</b>	<b>SYLWADAU</b>
Heddlu Gogledd Cymru	Sylwadau - ac amodau
Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd, Cyngor Gwynedd	Sylwadau - ac amodau

### **3.2 Sylwadau Heddlu Gogledd Cymru**

Derbyniwyd sylwadau gan yr Heddlu yn dilyn sgwrs gyda'r ymgeisydd - a gytunodd i dderbyn yr amodau isod ar y drwydded -

#### **Adran M (b) – Atal Trosedd ac Anhrefn**

1. Bydd system TCC ddigidol yn cael ei gosod a dylai'r Heddlu a'r Awdurdod fod yn fodlon gyda sut mae'n gweithio.
2. Bydd y system TCC yn recordio ac yn cadw delweddau lliw o'r holl adegau y mae aelodau'r cyhoedd yn yr adeilad am o leiaf 28 diwrnod.
3. Pan fydd yr Heddlu a'r Awdurdod Lleol yn cyflwyno cais am ddelweddau bydd y delweddau yn cael eu rhoi iddynt yn syth a bydd gan y busnes feddalwedd digonol i allu cydymffurfio â'r amod hwn.
4. Mae'n rhaid bod yna o leiaf un aelod o staff hyfforddedig ar gael i lawr lwytho tystiolaeth ar gais yr heddlu neu swyddog awdurdodedig pan fo'r adeilad ar agor.
5. Bydd arwyddion yn cael eu gosod a'u harddangos yn glir mewn mannau cyhoeddus o'r adeilad i ddweud bod system TCC yn weithredol.
6. Dylid cadw recordiadau o ddigwyddiadau yn ddiogel i'w harchwilio gan yr heddlu.

#### **Adran M (e) – Amddiffyn Plant rhag niwed.**

Mae'r ymgeisydd hefyd wedi cadarnhau ei bod am weithredu cynllun Her 25

### **3.3 Sylwadau Gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd**

- 3.4 Fe yrrwyd llythyr at yr ymgeisydd yn datgan fod y swyddog o'r farn y byddai caniatáu adloniant tu allan i'r eiddo yn creu niwsans swm i drigolion lleol . Yn dilyn sgwrs ffôn hefo'r ymgeisydd, cadarnhawyd fod cyfaddawd wedi ei gytuno; a bod yr argymhelliad i leihau oriau'r holl adloniant rheoledig i 09:00 - 19:00 (dydd Llun - dydd Sul) y tu allan i'r adeilad wedi ei dderbyn.
- 3.5 Ar sail y cyfaddawd, mae'r swyddog yn cadarnhau nad oes gwrthwynebiad i'r cais; ond fod argymhelliad fod yr amodau swm a fanylir yn y llythyr hefyd yn cael ei gynnwys ar y drwydded .
- 3.6 Gweler atodiad yr adroddiad am fanylion llawn y sylwadau a'r argymhellion a dderbyniwyd

## **4 ARGYMHELLIAD**

Argymhellir fod y Pwyllgor hwn yn cymeradwyo'r cais - yn unol â'r hyn a gytunwyd gyda'r Heddlu a'r gwasanaeth Gwarchod y Cyhoedd; ac yn unol â gofynion y Ddeddf Trwyddedu 2003.